Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Syr John Rhys
Ponterwyd
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3JX

04/06/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mai 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Syr John Rhys yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Datblygu medrau ysgrifennu Cymraeg disgyblion

- Mae'r pennaeth wedi myfyrio'n ddwys ar y ffordd orau i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae wedi cynnal cyfarfodydd staff, ymgynghori â phartneriaid a chydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos.
- Mae arweinwyr yn creu ethos a diwylliant cynhyrchiol i gefnogi dysgu proffesiynol staff i feithrin medrau ysgrifennu disgyblion. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i rannu syniadau a chyd-gynllunio yn ogystal â chyfleoedd i rannu arfer dda. Drwy hyn, maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ac i hybu mwynhad at ysgrifennu.
- Mae athrawon yn defnyddio adnoddau pwrpasol, fel 'Y Wal Serennu', i gefnogi'r dysgu yn effeithiol. Mae hyn yn cyfoethogi cynnwys ysgrifennu'r disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae staff yn fodelau iaith cadarn. Maent yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol, fel holi'r disgyblion yn briodol, a darparu adborth buddiol sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gwaith ysgrifennu. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu a gwella eu gwaith ac mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol.



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfuno seiniau llythrennau i ysgrifennu geiriau syml. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n fwy estynedig ac maent yn gwneud dewisiadau dychmygus o eirfa i ddal sylw'r darllenydd yn bwrpasol.

## Datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion

- Mae arweinwyr ac athrawon yn cydweithio ag ysgolion cyfagos i hybu medrau darllen disgyblion yn bwrpasol. Maent yn meithrin diwylliant darllen cadarn ar draws yr ysgol, er enghraifft trwy annog disgyblion i 'ddarllen gyda Deri'
- Mae'r amgylchedd dysgu yn cefnogi datblygiad medrau darllen disgyblion yn fwriadus. Mae arddangosfeydd ysgogol a deniadol sy'n cynnwys geirfa bwrpasol, a mynediad at lyfrau yn gysylltiedig â'r thema, yn cefnogi disgyblion i ymgolli yn eu darllen.
- Mae staff yn trefnu gweithgareddau buddiol sy'n galluogi disgyblion i ddarllen gyda chyfoedion mewn sesiynau 'ffrind bach a ffrind mawr'. Mae'r sesiynau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu hyder a mwynhad disgyblion wrth ddarllen.
- Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau darllen addas ac yn dewis testunau'n fwriadus i ennyn diddordeb disgyblion. Maent hefyd yn creu testunau ysgogol i gefnogi'r dysgu, gan ddefnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial yn effeithiol, lle bo'n addas.
- Mae staff yn gweithredu strategaethau penodol i ddatblygu medrau darllen cynnar y disgyblion ieuengaf. Maent yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol disgyblion ac yn darparu ystod addas o strategaethau i gefnogi datblygiad darllen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn dechrau darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth gynyddol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672315

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol